

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 50/2015




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso Cynllun Grantiau Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru 2013-2015

Adroddiad Interim Cryno



Adroddiad Interim Cryno ar Werthuso Cynllun Grantiau Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru 2013-2015

Ecorys UK

Louise Scott

Jenny Williams

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn
Llywodraeth Cymru

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Janine Hale

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6539

E-bost: janine.hale@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru 24 Medi 2015

ISBN 978-1-4734-4867-4

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac
eithrio lle y nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Crynodeb Gweithredol

1. Y Cefndir

Nod Cynllun Grantiau Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru (HCWVSGS) yw datblygu capasiti a gallu sefydliadau cenedlaethol sector gwirfoddol Cymru i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a sefydliadau sector gwirfoddol eraill i hybu iechyd a llesiant cynaliadwy trwy gefnogi gweithgareddau craidd a phrosiectau. Amcanion y cynllun yw:

- Dylanwadu ar yr amodau sydd eu hangen er mwyn i bobl fyw bywydau iach a gwella eu hiechyd.
- Cefnogi unigolion a grwpiau i wneud yr hyn a allant i wella eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd.
- Hyrwyddo negeseuon iechyd a llesiant yn effeithiol.

Ariannwyd chwe phrosiect o dan gynllun 2013-15 fel y nodir yn y tabl isod.

Sefydliad	Enw'r prosiect	Thema allweddol
Mind Cymru	Iechyd Meddwl Amenedigol a Chydnerthedd – Prosiect Cymorth Cynnar.	Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw i fenywod beichiog
Sustrans Cymru	Prosiect Ysbytai Iach.	Cefnogi creu menter Ysbytai Iach
Sustrans Cymru	Prosiect Prifysgolion Iach.	Cefnogi creu menter Prifysgolion Iach
Clybiau Plant Cymru	Prosiect Chwarae, Dysgu a Thyfu'n Iach.	Cefnogi unigolion i gael ffyrdd o fyw iachach a'u rhybuddio rhag ymddygiadau peryglus
The Prince's Trust	Prosiect Active Youth.	Cefnogi unigolion i gael ffyrdd o fyw iachach a'u rhybuddio rhag ymddygiadau peryglus
Breast Cancer Care	Prosiect Best Foot Forward.	Cefnogi unigolion i gael ffyrdd o fyw iachach a'u rhybuddio rhag ymddygiadau peryglus

2. Nodau ac amcanion y gwerthusiad

• Ecorys sy'n gyfrifol am werthuso HCWVSGS, mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe. Diben y gwerthuso yw llywio datblygiad HCWVSGS yn y dyfodol. Nod y gwerthusiad yw mesur effeithiolrwydd HCWVSGS. Amcanion y gwerthusiad yw ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

-
- I ba raddau y mae cynllun 2013-15 wedi bodloni ei nodau ac amcanion fel y'u hamlinellir uchod?
- Pa ddylanwad/ effaith, os o gwbl, y mae'r cynllun wedi eu cael ar y sefydliadau, y prosiectau, y cymunedau a'r unigolion a gymerodd ran?
- Pa newidiadau, os o gwbl, sydd eu hangen i sicrhau bod y cynllun mor effeithiol â phosibl?
- A yw'r cynllun wedi dylanwadu ar gynlluniau'r sefydliadau sy'n cymryd rhan i gynnal y gweithgareddau prosiect y tu hwnt i'r cyfnod ariannu?¹

¹ Y fanyleb ar gyfer gwerthuso Cynllun Grantiau Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru 2013-2015, wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

3. Y dulliau gwerthuso

Y rhain yw'r dulliau a ddefnyddir gan y gwerthuswyr:

- Datblygwyd **modelau rhesymeg a mapiau effaith** i ddeall yn well y ddamcaniaeth newid sydd wrth wraidd y cynllun a'r prosiectau sy'n perthyn iddo.
- Cynhaliwyd **cyfweiliadau rhanddeiliaid strategol** ar ddechrau'r gwerthusiad.
- Cynhaliwyd **sesiwn hyfforddi Cyflwyniad i'r Gwerthusiad** i'r prosiectau a ariannwyd.
- Dyluniwyd **holiaduron arolwg** trwy ddefnyddio graddfeydd wedi'u safoni/cwestiynau wedi'u dilysu pan yn bosibl, i gynorthwyo'r gallu i gymharu canfyddiadau'r gwerthusiad â'r rheini o raglenni eraill sy'n gysylltiedig ag ieched yn y cyfnod adrodd olaf os oedd hynny'n briodol.
- Mae **cymorth gwerthuso parhaus** yn cael ei ddarparu i brosiectau, er mwyn sicrhau y gallant gasglu a chofnodi data arolwg yn systematig mewn fformat sy'n addas i'w ddadansoddi.
- Cynhaliwyd **seminar deiliaid grantiau** yn ystod haf 2014.
- **Ymgynghoriadau prosiect** – cynhaliwyd cyfweiliadau trylwyr â rheolwyr prosiectau/deiliaid grantiau yn ystod hydref 2014 a byddant yn cael eu cynnal eto i lywio'r adroddiad terfynol.
- Cynhaliwyd **cyfweiliadau â rheolwyr y rhaglen** o Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2015 a byddant yn cael eu cynnal eto ddechrau Rhagfyr 2015.
- **Dadansoddi economaidd** – mae Prifysgol Abertawe yn arwain y dadansoddiad economaidd, a fydd yn mesur cyfanswm cost darparu'r prosiect trwy ddefnyddio dull canlyniadau cost.
- Caiff **ymweliad astudiaeth achos** ei gynnal ar gyfer pob un o'r chwe phrosiect rhwng Mawrth a Mehefin 2015.
- Bydd Ecorys hefyd yn **cyfweld** nifer o **fudiadau sector gwirfoddol** a gymerodd ran yn y rhaglen fel partneriaid neu a fanteisiodd ar hyfforddiant.

4. Asesiad cychwynnol yn erbyn yr amcanion

Mae'r adroddiad yn darparu asesiad cychwynnol o gynnydd y prosiectau yn erbyn amcanion y cynllun, yn seiliedig ar ymgynghoriadau'r prosiectau a dadansoddiad o adroddiadau ar gynnydd. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol isod.

4.1 Mae'r rhaglen wedi gwneud rhywfaint o gynnydd tuag at *fodloni nod penodol y rhaglen*, sef datblygu **capasiti a gallu** sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol yng Nghymru i hybu gweithgareddau ieched a llesiant sydd â'r potensial i fod yn rhai cynaliadwy², yn y modd canlynol:

- Mae'r cynllun wedi helpu i gynyddu **capasiti staffio** mewn sawl ffordd. Mae rhai prosiectau wedi defnyddio eu grantiau i gynyddu capasiti sefydliadol trwy ariannu swyddi newydd. Mae sefydliadau eraill wedi defnyddio grant HCWVSGS i roi oriau ychwanegol i'r staff presennol a sicrhau bod swyddi presennol yn cael eu defnyddio i'w capasiti llawn. Mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r rhaglen wedi cynyddu capasiti sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol yng Nghymru yn fwy hirdymor.

² Mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r gweithgareddau hyn yn gynaliadwy; bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach ar gyfer yr adroddiad terfynol.

- Mae'r rhaglen hefyd yn cynorthwyo sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol i **weithio gyda sefydliadau sector gwirfoddol eraill**, gan helpu'r sector i rannu arbenigedd.
- Mae'r rhaglen hefyd yn ategu'r gwaith o adeiladu capasiti yn y sector gwirfoddol trwy ddarparu cyfleoedd **gwirfoddoli**.

4.2 Mae'r prosiectau wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran *bodloni amcanion penodol y rhaglen*, a hynny yn y modd canlynol:

Amcan 1: Dylanwadu ar yr amodau sydd eu hangen i bobl fyw bywydau iach a gwella iechyd.

- Dyluniwyd pob un o'r prosiectau i **hysbysu** pobl yn well trwy wella eu gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw, a darparu **gwybodaeth** i alluogi pobl i wneud dewisiadau iach.
- Mae rhai o'r prosiectau'n canolbwyntio ar **newid systemau**, gan weithio i wella'r amodau a'r gwasanaethau sydd ar gael i gynorthwyo pobl i fyw bywydau iach a gwella eu hiechyd. Roedd **arloesed** hefyd yn amlwg yn y modelau hyfforddi a ddatblygwyd gan sawl prosiect, gan gynnwys defnyddio cymorth rhwng cymheiriaid.

Amcan 2: Cynorthwyo unigolion a grwpiau i wneud yr hyn allant i wella eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd.

- Mae ystod o weithgareddau prosiect yn **grymuso** ac yn **galluogi** unigolion i wella eu hiechyd eu hunain, trwy feithrin meddylfryd cadarnhaol ymhlith cyfranogwyr.
- Ni ddyluniwyd yr un o'r prosiectau yn benodol fel **ymyriadau teulu cyfan**. Dyluniwyd y rhan fwyaf o'r prosiectau i gael effaith ar unigolion penodol sydd mewn perygl o fod ag iechyd gwael.

Amcan 3: Cyfleu negeseuon 'gwell iechyd' yn effeithiol.

- Roedd pob un o'r prosiectau wedi nodi negeseuon allweddol i hybu 'gwell iechyd'. Mae pob un o'r prosiectau sy'n darparu hyfforddiant i staff neu weithwyr proffesiynol wedi datblygu negeseuon eglur sy'n cael eu cyfathrebu yn eu deunyddiau hyfforddi.

5. Egin ddylanwadau ac effeithiau a sicrhawyd gan y prosiect hyd yma

5.1 Yr effaith ar fudiadau sy'n cymryd rhan a phrosiectau hyd yn hyn

- Cymysg oedd yr effeithiau ar fudiadau partner ar adeg yr adroddiadau interim, wrth i rai o brosiectau bwysleisio'r angen am gyfnod arweiniol hwy i gynnwys a dylanwadu'n llawn ar sefydliadau partner. Ymgynghorir yn uniongyrchol â rhai sefydliadau partner drwy'r astudiaethau achos i gasglu gwybodaeth am y pwynt hwn.
- Dywedodd sawl prosiect bod cymorth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cael effaith ar y sefydliad hyrwyddo, yn enwedig o ran gweithgareddau marchnata.

5.2 Mae'r effaith ar gymunedau ac unigolion a gymerodd ran hyd yn hyn, o ran themâu allweddol y Cynllun, fel a ganlyn:

Thema 1: Hybu ffyrdd iachach o fyw i fenywod beichiog, sy'n cael effaith gadarnhaol arnyn nhw ac ar iechyd eu teuluoedd.

- Un prosiect yn unig a gomisiynwyd i weithio gyda'r grŵp targed hwn a phrin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd o effaith y prosiect yn y cyfnod interim. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar wella/ diogelu iechyd emosiynol menywod beichiog. Efallai fod gan rai o'r cyfranogwyr blant eisoes, ac felly mae'n bosibl y gallai'r prosiect gael effaith anuniongyrchol ar iechyd eu teuluoedd, ond nid yw hwn yn un o amcanion penodol y rhaglen. Bydd hyn yn cael ei archwilio trwy waith ymchwil yr astudiaethau achos yn 2015.

Thema 2: Annog a chefnogi unigolion i fyw bywydau iach trwy annog gweithgarwch corfforol a deiet cytbwys, a rhybuddio pobl rhag ymddygiadau peryglus fel ysmegu a goryfed, i leihau'r niferoedd sydd mewn perygl o ddatblygu afiechyd cardiofasgwlaidd (gan gynnwys clefyd coronaidd y galon a strôc), canser a diabetes.

- Mae'r holl brosiectau'n cymell pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw trwy annog **gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach**, er bod llai o bwyslais ar hyn yn y prosiect sy'n canolbwyntio ar fenywod beichiog.

Thema 3: Cefnogi camau i greu menter ysbytai iach neu fenter colegau a phrifysgolion iach.

- Comisiynwyd un sefydliad i weithio ar themâu ysbytai iach a phrifysgolion iach. Nododd y rheolwr prosiect ar gyfer y ddau brosiect anawsterau sylweddol o ran annog prifysgolion ac ysbytai i gymryd rhan yn y prosiectau. Priodolwyd hyn gan reolwr y prosiect i broblemau porthora mewn sefydliadau perthnasol yn bennaf, a llwythi gwaith presennol y personél perthnasol yn y sefydliadau hynny.

5.3 Mae'r effaith ar *bolisi* hyd yn hyn, o ran themâu allweddol y Cynllun, fel a ganlyn:

- Cafodd fwyafrif y rheolwyr prosiect yr ymgynghorwyd â nhw ym mis Tachwedd 2014 drafferth yn cadarnhau sut roedd eu prosiectau'n effeithio ar flaenoriaethau polisi cenedlaethol ar gyfer iechyd yng Nghymru a gallai hwn fod yn faes i'w ddatblygu i helpu gyda chynaliadwyedd a chynnig tystiolaeth o effaith i ddarparu arianwyr. Bydd y maes hwn yn cael ei archwilio'n fwy manwl ar y cam adrodd terfynol.

6. Gwersi cynnar ar gyfer dylunio rhaglenni yn y dyfodol

- O ran *blaenoriaethau targedu a pholisi'r rhaglen*, teimlai'r holl brosiectau fod y rhaglen yn gweithio'n dda fel rhaglen agored, a oedd yn rhoi cryn ryddid i ymgeiswyr nodi grwpiau targed a blaenoriaethau cyflawni.
- Un o ffactorau llwyddiant cyffredin y rhaglen yw ei **hyblygrwydd**. Dywedodd nifer o brosiectau bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol ac ystyriol iawn pan roedd angen newid **pwyslais** neu **amserlen** y gweithgarwch.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull pragmatig o reoli'r rhaglen, gan fynd i'r afael â heriau wrth iddynt godi mewn cydweithrediad â'r prosiectau. Mae'r dull hwn wedi galluogi prosiectau i weithio'n unol â'u cynlluniau cyflawni gwreiddiol, gan wneud addasiadau lle'r oedd hynny'n ddoeth i sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer dylunio a chyflawni'n effeithiol. O'r herwydd, mae nifer o broblemau

a allai fod wedi creu heriau wrth gyflawni wedi cael eu lliniaru trwy reoli grantiau'n effeithiol.

- Bu'r **amgylchedd gweithredu allanol** yn anodd i rai o'r prosiectau sy'n gweithio gyda sefydliadau mawr sy'n newid ac yn ailstrwythuro, fel rhannau o'r GIG a phrifysgolion.
- Her arall a nodwyd yn strwythur presennol y rhaglen yw'r gymysgedd o weithgareddau **gwerthuso allanol, hunanwerthuso a gwerthuso cenedlaethol**.

7. Potensial cynaliadwyedd

- Prif bwyslais y prosiectau hyd at gyfnod yr adroddiadau interim fu sefydlu a chyflawni cychwynnol. Roedd cynllunio cynaliadwyedd ar y camau cynnar ar adeg yr adroddiadau interim felly.

8. Camau nesaf i'r gwerthusiad

- Daeth nifer o gyfyngiadau i'r amlwg drwy'r gwerthusiad hyd yn hyn. Yn eu plith mae cyfyngiadau data, ansawdd data a chyfyngiadau capasiti. Mae'r gwerthuswyr wedi ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn trwy ddarparu cymorth gweinyddol i hanner y prosiectau, er mwyn lleihau'r perygl o gyfraddau ymateb isel i'r prif arolwg. Mae'r gwerthuswyr hefyd yn darparu canllawiau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch ansawdd data pan gaiff y rhain eu nodi gan y prosiectau.
- Nodwyd y gorgyffwrdd posibl rhwng gweithgarwch gwerthuso lleol a gwerthuso cenedlaethol a rhoddwyd cynlluniau wrth gefn ar waith.
- Pennu cyfanswm y costau cyflawni (drwy'r gwaith canlyniadau cost).
- Cadarnhau'r mathau a'r lefelau o effaith a'r lefelau a gafwyd o'u cymharu â mapiau effaith y prosiectau.